



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL SIR CONWY

2 – 10 Awst 2019

Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Sir Conwy, a Llanrwst, yn ystod Awst 2019. Yma yn Nolwyddelan, mae angen eich cefnogaeth a'ch syniadau chi arnom ni er mwyn codi ymwybyddiaeth a chasglu arian i ofalu fod yr Ŵyl yn llwyddiannus y flwyddyn nesaf. Mae'r gwaith cymunedol, cyn yr Eisteddfod, yr un mor bwysig â'r ŵyl ei hun ac mae'n ffordd hwyl o atynnu cymunedau ac ennyn brwdfrydedd ymysg trigolion yr ardal.

Bu gofyn i holl gymunedau ardal Conwy gyfrannu a chodi ymwybyddiaeth.


Gan fod 'Pwyllgor Apêl Dolwyddelan' wedi ei sefydlu erbyn hyn [bu cyfarfod cyhoeddus ar ddiwedd mis Chwefror] bydd swyddogion y pwyllgor yn mynd ati i roi gwybod i drigolion y pentref am y digwyddiadau codi arian yn Newyddlen Dolwyddelan. Y diben ydy cyrraedd targed ariannol ardal Dolwyddelan.

Eglwys Sant Gwyddelan

yn cynnig paned a chacenni ar
brynhawn **Llun y Pasg**, o

2.30 tan 5.00yp

Croeso mawr i bawb!



CAPEL MORIAH

Noson Goffi Moriah
yn yr Addoldy

Nos Wener, Mai 11eg 6:30pm

Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.